Dylai Llywodraeth y DU:

1. Gynnal ymgynghoriad ystyrlon â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â gweithredu cynlluniau a rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, a datblygu strategaethau neu fesurau arloesol ar gyfer y dyfodol.
2. Adolygu'r taliad tanwydd gaeaf a'i dargedu'n well tuag at y rhai hynny sydd â'r angen mwyaf amdano. Credwn y dylid targedu'r taliad at bobl o bob oedran sy'n dioddef o dlodi tanwydd gan gynnwys plant a phobl ifanc, y rhai hynny sy'n byw mewn tai anodd eu trin a'r rhai hynny sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, yn ogystal â phobl hŷn.
3. Gwella incwm cartrefi sydd ar incwm isel, hyrwyddo dulliau o gynyddu incwm cymaint â phosib yng Nghymru a gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff gwirfoddol a chymunedol i gyrraedd grwpiau sydd angen eu targedu fwyaf.

Dylai Ofgem:

1. Sefydlu dulliau diogelu gwell i amddiffyn y tlawd yng Nghymru.
2. Mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn prisiau yng Nghymru.
3. Darparu gwybodaeth am wariant cymdeithasol gan gwmnïau ynni yng Nghymru er mwyn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fonitro pa adnoddau sydd ar gael, annog cwmnïau ynni i fod yn atebol am yr hyn y maent yn gwario eu harian arno ac i amlygu'r bylchau mewn gwariant.
4. Egluro eu swyddogaeth ar gyfer helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno Strategaeth Tlodi Tanwydd i Gymru.

Dylai Awdurdodau Lleol:

1. Ddatblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau gweithredu cynhesrwydd fforddiadwy lleol.
2. Sicrhau bod tlodi tanwydd yn flaenoriaeth i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles lleol, a defnyddio'r dulliau hyn i sicrhau bod tlodi tanwydd yn cael ei ystyried ar draws yr agenda statudol leol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r Siarter hon a gweithredu'r blaenoriaethau polisi a nodir ynddi

Trobwynt yn y frwydr yn erbyn

tlodi tanwydd yng Nghymru

FUEL POVERTY CHARTER
SIARTER TLODI TANWYDD
CYMRU

Partneriaid y Siarter

Llais Defnyddwyr Cymru / Consumer Focus Wales

NEA Cymru
Ymgyrchu Dros Gartrefi Clyd
Campaigning for Warm Homes

Oxfam

Shelter Cymru

Children in Wales
Plant yng Nghymru

ECO

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Care & Repair Cymru

WE ARE MACMILLAN. CANCER SUPPORT

Disability Wales

NI YW MACMILLAN. CYMORTH CANSER

cyngor ar bopeth

citizens advice bureau

Cartrefi Cymunedol Community Housing Cymru

AGE Concern Cymru

HELP THE AGED WE WILL
Help the Aged yng Nghymru
Help the Aged in Wales

Trobwynt yn y frwydr yn erbyn
tlodi tanwydd yng Nghymru

Rhoi Ymrwymiad Tlodi Tanwydd Cymru yn ôl ar y trywydd cywir

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru, o dan Ddeddf Cartrefi Cynnes a Chadwraeth Ynni 2000 y DU, i wneud popeth sydd yn rhesymol ymarferol i ddileu tlodi tanwydd. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu targedau sydd yn gyfreithiol rwymol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn cartrefi agored i niwed erbyn 2010, yn yr holl dai cymdeithasol erbyn 2012 ac i bawb erbyn 2018. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfaddef y bydd yn annhebygol o gyflawni ei tharged cyntaf o ddileu tlodi tanwydd ymysg grwpiau agored i niwed erbyn 2010 oherwydd y cynnydd mewn prisiau ynni dros y blynyddoedd diwethaf. Mae angen i ni gael ymagwedd fwy radical a chynhwysfawr er mwyn helpu i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Credwn na ddylai neb yng Nghymru orfod byw mewn cartref oer. Mae rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wedi dod at ei gilydd i ddatblygu siarter tlodi tanwydd i amlygu'r camau y credwn y dylid eu cymryd ar frys er mwyn sicrhau bod yr agenda tlodi tanwydd yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Rydym yn galw am:

- **gynllun gweithredu manwl yn nodi sut a phryd y bydd tlodi tanwydd yn cael ei ddileu yng Nghymru**
- **cymorth i bob cartref sy'n dioddef o dlodi tanwydd i gadw'n gynnes hyd nes y byddwn wedi dileu tlodi tanwydd**
- **ymagwedd gydlynol ac unedig ar draws y sector statudol (ar lefel y DU a Chymru) sydd yn cynnwys partneriaid o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r siarter hon a gweithredu pecyn cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod pob cartref yng Nghymru yn gallu elwa ar gysur cartref cynnes y gellir fforddio ei wresogi a'i bweru.

Bwyd neu wres – y gwir anghyfforddus am dlodi tanwydd

Mae tua 320,000 o gartrefi yng Nghymru, sef 1 ym mhob 4, yn dioddef o dlodi tanwydd. Mewn termau technegol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt wario 10 y cant neu fwy o'u hincwm ar ynni i wresogi'r cartref. Mae hyn yn golygu efallai na fyddant yn gallu fforddio gwresogi na phweru eu cartrefi na bwyta'n iawn, a fyddai'n gadael dewis rhwng bwyd a gwres.

Mae tua 320,000 o gartrefi yng Nghymru, sef 1 ym mhob 4, yn dioddef o dlodi tanwydd

Ar hyn o bryd, mae bil ynni blynyddol cartref yn y DU ar gyfartaledd dros £1200. Mae hyn yn gynnydd o 33 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf ac yn fwy na dwywaith bil cyfartalog bum mlynedd yn ôl. Yng Nghymru, ychwanegir at y broblem o brisiau ynni uchel oherwydd bod ansawdd y stoc tai yn wael, sy'n gwneud cartrefi yn ddrutach i'w cynhesu – yn ogystal â nifer uchel o bobl sy'n byw mewn tlodi ac ar incwm isel, a'r ffaith nad oes gan lawer o gartrefi fynediad at y prif rwydwaith nwy. Mae cartrefi yng Nghymru hefyd yn talu tua 5 y cant yn fwy am drydan na chartrefi yn y DU. Yng Nghymru, mae nifer uchel o gartrefi mewn dyled i gyflenwyr ynni; ym mis Medi 2008, roedd 50,547 o gartrefi mewn dyled i'w cyflenwyr trydan (gydag 20,669 o'r rhain ar fesuryddion rhagdalu) ac roedd 46,588 o gartrefi mewn dyled i'w cyflenwyr nwy (gyda 27,139 o'r rhain ar fesuryddion rhagdalu).

Mae byw mewn cartrefi oer a llaith yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol iawn. Mae byw mewn tlodi tanwydd yn effeithio ar iechyd pobl, gan gynyddu'r risg o gael afiechydon cyffredin fel annwyd a ffliw, heintiadau anadlol fel broncitis, a chael codwm yn y cartref. Mae'n gwneud plant ac oedolion yn fwy agored i alergeddau. Mae cartrefi oer a llaith hefyd yn gysylltiedig ag asthma, problem gynyddol ymysg plant yn enwedig. Ar y pegwn eithaf gall byw mewn cartref oer a llaith achosi marwolaeth, ac mae pobl yn marw oherwydd hynny; adroddir am tua 1,500 o farwolaethau heb fod angen yng Nghymru bob gaeaf, ac mae pobl hŷn yn arbennig o debygol o ddioddef.

Ceir canlyniadau anuniongyrchol hefyd. Mae byw mewn tlodi tanwydd yn achosi straen eithriadol ar blant ac oedolion a gall arwain at iselder a phryder hirdymor. Gall cyrhaeddiad addysgol plant ddioddef hefyd, gan fod plant yn ei chael hi'n anodd gwneud gwaith cartref mewn cartrefi lle y mae'n bosibl mai dim ond un ystafell sydd wedi ei gwresogi'n ddigonol. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch sy'n gysylltiedig ag oerni. Mae plant ac oedolion hefyd yn dioddef rhywfaint o eithrio cymdeithasol, gan eu bod yn aml yn teimlo'n rhy chwithig i wahodd ffrindiau i gartref oer. Yn ogystal â'r canlyniadau o ran iechyd a chyfleoedd bywyd unigolion a theuluoedd ar draws Cymru, mae'r anallu i wresogi'r cartref yn ddigonol yn creu goblygiadau economaidd ehangach i wasanaethau megis iechyd, addysg a chyflogaeth. Yn y pen draw, mae byw mewn tlodi tanwydd yn golygu gorfod gwneud dewisiadau anodd rhwng talu am filiau tanwydd, talu am hanfodion eraill fel bwyd, neu fynd i ddyled na ellir ei rheoli. Mae'r cynnydd mewn diweithdra ynghyd ag incwm cartref is yn ychwanegu at yr anawsterau y mae cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd yng Nghymru yn eu hwynebu.

I lofnodi'r siarter a chymryd rhan ewch i **www.fuelpovertycharterwales.org.uk**

Siarter Tlodi Tanwydd

Rydym yn galw am:

Gynllun gweithredu manwl yn nodi sut a phryd y bydd tlodi tanwydd yn cael ei ddileu yng Nghymru

Mae angen i ni greu'r amodau a fydd yn sicrhau bod pawb yn gallu arfer eu hawl sylfaenol i gael cartref cynnes, a thorri cylch tlodi tanwydd. Rhaid i egwyddorion sylfaenol datblygiad cynaliadwy a chyfiawnder cymdeithasol, sydd yn cydbwyso materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, fod wrth wraidd y camau gweithredu i roi terfyn ar dlodi tanwydd.

Mae angen i ni gael Cynllun Gweithredu ar Dlodi Tanwydd sydd wedi'i brisio'n llawn ac sy'n nodi'n union pa fesurau y mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd i gyflawni ei thargedau tlodi tanwydd, faint y bydd y mesurau hyn yn ei gostio a sut y byddant yn cael eu cyflwyno, ochr yn ochr â cherrig milltir eglur gydag amserlen ar gyfer mesur y cynnydd tuag at y targedau hyn.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

1. Ddatblygu data cadarn i ddangos pwy sy'n dioddef o dlodi tanwydd a ble maen nhw'n byw. Mae'r data diweddaraf sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dyddio'n ôl i 2004. Ers hynny, mae prisiau ynni wedi dyblu mwy neu lai, gan wthio cannoedd ar filoedd yn fwy o gartrefi yng Nghymru i dlodi tanwydd. Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddealltwriaeth glir o gyfansoddiad y cartrefi newydd hyn sy'n dioddef o dlodi tanwydd, na dealltwriaeth ychwaith o'r tueddiadau sylfaenol. Er enghraifft, ychydig iawn o ymchwil a gynhaliwyd ar y cysylltiadau rhwng tlodi tanwydd a byw yng nghefn gwlad. Ni wyddom ychwaith pa un a yw tlodi tanwydd wedi dwysáu yn ogystal ag ehangu, gyda mwy o bobl yn profi tlodi tanwydd difrifol. Heb y data hwn, mae unrhyw gynigion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn seiliedig ar sefyllfa a ddeellir yn rhannol yn unig.

2. Cynnal archwiliad o ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli, gan nodi bylchau mewn gwybodaeth a cheisio sefydlu dulliau i fynd i'r afael â hyn. Dylai hyn gynnwys nodi grwpiau agored i niwed sy'n dioddef o dlodi tanwydd, megis tlodion sydd mewn gwaith a'r rhai hynny sydd â chyflyrau iechyd hirdymor y gallai fod ganddynt anghenion penodol.

3. Ystyried cynnwys cwestiynau penodol yn ymwneud â thlodi tanwydd yn yr arolwg Cenedlaethol newydd sydd yn cael ei ddatblygu.

4. Nodi canlyniadau allweddol yr ydym yn ceisio eu cyflawni trwy helpu pobl allan o dlodi tanwydd megis iechyd, tai, addysg a lles, a datblygu ffyrdd o fesur y canlyniadau hyn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y manteision cymdeithasol ac iechyd a ddaw yn sgîl helpu pobl allan o dlodi tanwydd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â manteision ariannol ac arbed ynni. Dylid cydnabod manteision cost canlyniadau o'r fath dros feysydd polisi ehangach.

Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, ni ddylai'r broses o gasglu data o'r fath atal Llywodraeth Cynulliad Cymru rhag gweithredu ar frys yn awr i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Rydym yn galw am:

Gymorth i bob cartref sy'n dioddef o dlodi tanwydd i gadw'n gynnes hyd nes y bydd tlodi tanwydd yn cael ei ddileu

Nid yw systemau a pholisïau toreithiog a arweinir gan y farchnad wedi llwyddo i ddiogelu pobl rhag tlodi tanwydd. Mae tariffiau prisiau yn gymhleth, yn aml mae'r dulliau talu a ffefrir gan y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi yn cynnwys premiwm ar y pris, a hyd yn oed pan fo tariffiau prisiau yn bodoli, nid yw cwsmeriaid sydd yn gymwys yn ymwybodol ohonynt. Cefnogir rhaglenni effeithlonrwydd ynni trwy Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynlluniau a ariennir gan gwmnïau cyfleustodau, ond nid yw'r rhain bob amser wedi'u targedu'n dda nac yn gydgysylltiedig. Hefyd, mae Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig cydlynu HEES a CERT, ond nid oes ganddo unrhyw bŵer nac awdurdod i wneud hynny. Credwn fod hwn yn ddiffyg sylweddol sydd angen mynd i'r afael ag ef.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

1. Weithio gyda Llywodraeth y DU i ddod â chyfran gyfartal o gynlluniau effeithlonrwydd ynni'r DU i Gymru a defnyddio pob dull sydd ar gael i sicrhau bod cyflenwyr ynni yn targedu mesurau o'r fath at y rhai hynny sy'n fwyaf agored i niwed.

2. Creu pecyn o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd trwy ystod o ffynonellau gan gynnwys asiantaethau cynghori y gellir ymddiried ynddynt, fel yr enghraifft a ddarperir gan brosiect Cyngor Da: Iechyd Da Cyngor ar Bopeth. Dylai'r pecyn hwn hefyd gynnwys gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael o dan HEES, CERT a chynlluniau eraill fel y bo'n briodol ar gyfer effeithlonrwydd ynni, yn ogystal â mesurau ynni adnewyddadwy a chyngor ar fudd-daliadau. Dylai hefyd roi cefnogaeth a chyngor ar dariffiau ynni i ddefnyddwyr agored i niwed. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod rhyw fath o gymorth ar gael i bawb sy'n dioddef o dlodi tanwydd, pa un a ydynt yn gymwys i gael cymorth uwch ai peidio, a fydd hefyd yn golygu y gellir nodi'r rhai hynny sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.

3. Gweithio gyda Gweinidogion y DU i gymryd camau i fynnu bod cwmnïau ynni yn gostwng y taliadau ychwanegol annheg ar ddefnyddwyr sy'n talu trwy fesuryddion rhagdalu a Chredyd Safonol, a chyflwyno safonau gofynnol gorfodol ar gyfer tariff cymdeithasol ar gyfer defnyddwyr agored i niwed. Credwn hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynorthwyo defnyddwyr i gael tariffiau rhatach a hyrwyddo cynhwysiant ariannol fel bod y rhai hynny sy'n cael y drafferth fwyaf gyda'u biliau yn gallu manteisio ar ddulliau talu rhatach.

4. Darparu cymorth i gartrefi mewn ardaloedd gwledig sy'n dioddef o dlodi tanwydd nad ydynt ar y rhwydwaith nwy trwy ariannu'n llawn y gwaith sydd ei angen i wella eu cartrefi a sefydlu cynlluniau i fynd i'r afael â chartrefi sy'n anodd eu trin, megis ynni micro adnewyddadwy ac inswleiddio waliau solet. Ar hyn o bryd, mae llawer o gartrefi mewn ardaloedd gwledig yn dioddef yn arbennig gan eu bod yn byw mewn cartrefi sy'n anodd eu trin a'u hinsiwleiddio, a chan eu bod hefyd yn dibynnu ar y mathau drutaf o danwydd ar gyfer gwresogi a heb fod yn gymwys ar gyfer gostyngiadau tanwydd deuol. Mae cost uchel gwella eiddo trwy dechnolegau newydd ac inswleiddio waliau solet yn golygu eu bod y tu hwnt i gyrraedd y rhan fwyaf o gartrefi ar incwm isel. Mae'n hanfodol, felly, bod rhaglenni grant yn darparu mesurau sy'n addas i eiddo gwledig ac nad oes disgwyl i gleientiaid gyfrannu tuag at y costau.

5. Cynyddu incwm pobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd trwy weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod pobl sydd yn gymwys i dderbyn budd-daliadau cyfredol yn eu derbyn. Dylai hyn gael ei gyflawni trwy ymestyn cynlluniau cyfredol ar gyfer manteisio ar fudd-daliadau i grwpiau eraill anodd eu cyrraedd. Dylid ymestyn y cynlluniau manteisio ar fudd-daliadau hyn i ddarparu cymorth a chyngor ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni i ddefnyddwyr agored i niwed.

6. Datblygu cronfa argyfwng i gynorthwyo cartrefi sydd ar incwm isel a chartrefi sy'n agored i niwed na fyddent fel arall yn gymwys i dderbyn cymorth grant, ond na allent fforddio cost gwresogi brys, insiwleiddio neu fesurau eraill o'r fath. Nid yw HEES yn ddatrysiad i'r broblem gwresogi brys ac nid yw llawer o'r rhai hynny sy'n dioddef o dlodi tanwydd yn gymwys ar ei gyfer beth bynnag. Byddai cronfeydd argyfwng yn caniatáu i'r rhai hynny sydd mewn angen dybryd a heb unrhyw gynilion eu hunain i osod gwresogi brys a mesurau eraill o'r fath.

7. Datblygu Safon Ansawdd Tai Cymru ac ystyried a oes angen mesurau ychwanegol i helpu'r rhai hynny sy'n byw mewn tai cymdeithasol allan o dlodi tanwydd erbyn dyddiad targed Llywodraeth y Cynulliad o 2012. Yn yr un ffordd, dylid darparu cymorth i sicrhau bod pob cartref yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda er mwyn amddiffyn yn erbyn effaith prisiau tanwydd cyfnewidiol.

Rydym yn galw am:

Ymagwedd gydlynol ac unedig ar draws y sector statudol (ar lefel y DU a Chymru) sydd yn cynnwys partneriaid o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru

Mae gan bob asiantaeth swyddogaeth i'w chyflawni wrth ddatblygu'r agenda tlodi tanwydd. Er enghraifft, mae gan asiantaethau statudol megis adrannau tai, gofal cymdeithasol ac asiantaethau iechyd swyddogaeth allweddol wrth nodi a thargedu unigolion sy'n dioddef o dlodi tanwydd a'u cyfeirio at gymorth priodol. Gall cyrff gwirfoddol a chymunedol gyflawni swyddogaeth allweddol hefyd wrth helpu i dargedu grwpiau agored i niwed a darparu cyngor ac arweiniad ynglŷn â sut i ymgysylltu â'r grwpiau hyn a'u cynorthwyo. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgysylltu'n weithredol â phob sector i ddatblygu'r agenda hon.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

1. Sefydlu Tasglu Tlodi Tanwydd Gweinidogol Traws-adrannol sy'n gyfrifol am gyflawni dyletswyddau cyfreithiol y Llywodraeth o ran tlodi tanwydd. Rydym yn dymuno gweld holl Weinidogion Cymru yn ymrwymo i gynnwys gweithredu ar dlodi tanwydd yng nghynlluniau strategol adrannau ac is-adrannau'r Llywodraeth a'u hasiantau, fel bod pawb yn cymryd cyfrifoldeb dros gyfrannu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'r ymagwedd atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau, a ddefnyddir fwyfwy mewn meysydd megis gwasanaethau i blant, yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwaith cydgysylltiedig o'r fath tuag at ganlyniadau a rennir, yn seiliedig ar gynllunio swyddogaethau yn eglur a rheoli perfformiad. Dylai'r tasglu gyfarfod â Gweinidogion y DU sydd â chyfrifoldeb yn y maes hwn a chynnal cysylltiad agos â hwy.

2. Gosod dyletswydd statudol, gan ddarparu adnoddau ar ei gyfer, ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae gan lywodraeth leol swyddogaeth allweddol i'w chyflawni wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd, ond heb arweiniad strategol clir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bydd eu pwyslais yn symud tuag at gyflwyno gwasanaethau statudol craidd eraill.

3. Cydgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod cynlluniau a rhaglenni'r DU yn rhoi ystyriaeth lawn i Gymru a bod gwell cydlyniad â HEES a mentrau eraill a ddatblygir yma yng Nghymru. Hefyd, dylid ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y Taliadau Tanwydd Gaeaf ar gael i grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn ogystal â phensiynwyr.

4. Bod yn fwy agored ynglŷn â'r berthynas rhwng cyflenwyr ynni yng Nghymru ac Ofgem fel bod rhanddeiliaid allanol yn gallu codi cwestiynau gyda'r Gweinidog i'w hystyried mewn fforymau o'r fath, ac i drafodaethau fod ar gael yn gyhoeddus. Dylid nodi swyddogaeth Ofgem yn benodol yn Strategaeth Tlodi Tanwydd Cymru er mwyn egluro eu swyddogaeth o ran helpu i gyflwyno'r Strategaeth.

5. Datblygu ymagwedd strategol tuag at hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n dioddef o dlodi tanwydd gan ddefnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys gweithwyr rheng flaen priodol.